Datganiad Cenhadaeth 2021
Mission Statement 2021

Nod ein hysgol yw arfogi unigolion uchelgeisiol a chreadigol mewn awyrgylch hapus.

Crëwn ymwybyddiaeth gref o Gymreictod a balchder yn ein hiaith.

Datblygwn ddinasyddion egwyddorol sy'n ymwybodol o'u byd ac yn barod i gyfrannu at ddyfodol gwell.

Magwn ddysgwyr mentrus sy'n dysgu trwy gamgymeriad ac yn llwyddo trwy ddyfalbarhad.

Credwn y dylai cymuned yr ysgol gydweithio er lles y plant yn ein gofal.

Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân.

Our school aims to nurture ambitious and creative individuals in a happy environment.

We will….

create a strong awareness of Cymreictod and pride in our language.

develop principled citizens who are aware of their world and ready to contribute to a better future.

nurture enterprising learners who learn by mistake and succeed through perseverance.

We believe that the school community should work together for the benefit of the children in our care.

Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân.

Cynllun Datblygu Ysgol 2021-22
School Development Plan 2021-22

- **Targed 1 – Mireinio darpariaeth y Gymraeg a rhannu arferion da gan sicrhau bod y dysgwyr yn ail-feistroli sgiliau ILlaCh rhagorol.** (Argymhelliad 2 - Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cael eu herio'n gyson ar draws yr ysgol).

- **Targed 2 – Cydweithio â rhanddeiliaid yr ysgol wrth wreiddio newidiadau'r ddeddf ADY a'r agenda MAT er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf ar les a chynnydd pob disgybl.** (Argymhelliad 2 - Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cael eu herio'n gyson ar draws yr ysgol).

- **Targed 3 – Ymgorffori cwricwlwm unigryw'r ysgol yn llawn yn unol â'r pedwar diben craidd a'r MDaPh.** (Argymhelliad 3 - Lledaenu'r arfer dda a rhagorol yn yr addysgu ar draws yr ysgol).

- **Target 1 - Refine Welsh language provision and share good practice ensuring that learners re-master excellent LLC skills.** (Recommendation 2 - Ensure that more able pupils are consistently challenged throughout the school).

- **Target 2 - Work with school stakeholders to embed changes to the ALN law and MAT agenda to maximise impact on the well-being and progress of all pupils.** (Recommendation 2 - Ensure that more able pupils are consistently challenged throughout the school).

- **Target 3 - To fully embed the school's unique curriculum in line with the four core purposes and the AOLE's.** (Recommendation 3 - Disseminate good and excellent teaching practice throughout the school).

Cynllun Datblygu Ysgol - 2021-22

Targed 1 – Mireinio darpariaeth y Gymraeg a rhannu arferion da gan sicrhau bod y dysgwyr yn ail-feistroli sgiliau ILlaCh rhagorol.

Rhesymeg

Yn deillio o'r prosiectau ymchwil a sgil effaith y Cyfnod Clo oherwydd Coronafeirws, mae angen blaenoriaethu iaith lafar (Cymraeg) y plant er mwyn ceisio sicrhau safonau gwell yn eu gwaith darllen ac ysgrifenedig.

Defnyddir grant ALPau ac hyfforddiant gan Helen Bowen i sicrhau cysondeb yn yr addysgeg ar draws y Camau Cynnydd a chynnydd yn safonau disgwyliedig uchel yr ysgol gan herio'r plant i gwrdd â'u targedau unigol.

Amcanion

★Sefydlu a datblygu rôl arweinyddol y tîm I, LL a Ch ar draws y Camau Cynnydd wrth arwain, monitro a gwerthuso'r CDY

★Athrawon yn cyd-gynllunio ar draws y 6 MDaPh gan ddarparu cyfleoedd eang i'r plant ddatblygu eu sgiliau ILlCh mewn modd diddorol ac ymarferol; e.e. drama gan ddefnyddio arferion da HMS / gwahodd ymarferwyr creadigol i arwain sesiynau / radio'r Castell

★Gweithredu cynllun sy'n nodi yr hyn sy'n disgwyliedig wrth ddarparu sesiynau drilio iaith ar ddechrau pob sesiwn i'r plant, er mwyn cael effaith da iawn ar safonau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu pob disgybl.

★Llywodraethwyr yn atebol o ran datblygiad ILlCh o fewn yr ysgol ac ambell un â chyfrifoldeb i weithio o fewn y tîm uchod

★95% o blant yn cyrraedd eu targedau heriol yn ILlaCh erbyn diwedd y flwyddyn (gweler data pennu targedau llafar ôl Covid-19)

School Development Plan 2021-22

Target 1 - Refine Welsh language provision and share good practice ensuring that learners re-master excellent LLC skills.

Rationale

Arising from the research projects and the impact of the Coronavirus pandemic, children's oral (Welsh) language needs to be prioritised in order to re-establish the high standards of oracy, reading and writing at the school.

ALP grant funding and training delivered by Helen Bowen are used to ensure consistency in pedagogy across the Progression Steps. This in turn will lead to an increase in the speed of progression and attainment as we challenge the children to meet their individual targets.

Objectives

★ Establish and develop the leadership role of the LLC team in all progression steps so that they can effectively lead, monitor, evaluate and plan in line with the SDP

★ Teachers to plan effectively across the 6 AOLE's providing broad opportunities for children to develop their LLC skills in an interesting and practical way; e.g. drama using INSET good practice / inviting creative practitioners to lead sessions / school radio

★ Implement a plan that sets out what is expected when providing language drilling sessions at the start of each session, in order to have a very good impact on the standards of Language, Literacy and Communication of all pupils.

★ Governors are accountable for the development of LLC within the school and link governors have responsibility for working within the above team

★ 95% of children reach their challenging targets in LLC by the end of the year (see post Covid-19 oracy target setting data)

Cynllun Datblygu Ysgol - 2021-22

Targed 2 – Cydweithio â rhanddeiliaid yr ysgol wrth wreiddio newidiadau'r ddeddf ADY a'r agenda MAT er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf ar les a chynnydd pob disgybl.

Rhesymeg:

Hoffem drawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). I wneud hyn, rydym yn anelu at wireddio rhaglen trawsnewid system ADY a fydd yn gweddnewid y systemau gwahanol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) yn yr ysgol er mwyn creu system unedig i gefnogi dysgwyr ADY o 0 hyd at 25 oed. Mae'r rhaglen trawsnewid system ADY hefyd yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau'r gweithlu addysg, er mwyn darparu cymorth effeithiol i ddysgwyr sydd ag ADY yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â sicrhau mynediad haws at gymorth, gwybodaeth a chyngor arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o gyflwyno system addysg sy'n gwbl gynhwysol i ddysgwyr yng Nghymru. System lle mae anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, lle mae proses yn ei lle i fynd i'r afael â'r anghenion hynny'n gyflym a lle mae pob dysgwr yn cael cymorth i gyflawni ei botensial. O dan y system newydd, bydd gwaith cynllunio yn hyblyg ac yn ymateb i sefyllfaoedd penodol, bydd gan ein gweithwyr proffesiynol y sgiliau gofynnol a byddant yn hyderus wrth nodi anghenion a datblygu strategaethau i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau i ddysgu a bydd y dysgwr yn ganolog i bopeth a wnawn.

Amcanion:

- ✓ Sicrhau bod pob dysgwr sydd ag ADY yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac yn cyflawni ei lawn botensial
- ✓ Gwella'r broses o gynllunio a chyflwyno cymorth i ddysgwyr o 0 hyd at 25 oed sydd ag ADY, gan roi anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r dysgwyr wrth wraidd y broses.
- ✓ anolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn gynnar a rhoi ymyriadau amserol ac effeithiol ar waith sy'n cael eu monitro a'u haddasu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau a ddymunir
- ✓ Gweledigaeth glir gan yr ysgol am flaenoriaethau ar gyfer gwella lles pawb, yn enwedig dysgwyr ADY a MATh.
- ✓ Darpariaeth ADY wedi ei adolygu yn llawn yng ngoleuni deddfwriaeth ADY newydd a gweithdrefnau wedi gwreiddio yn yr ysgol.
- ✓ Bron bob un aelod o staff a'r rhan fwyaf o randdeiliaid yr ysgol yn deall y gweithdrefnau ADY newydd.
- ✓ Hybu datblygiad academaidd, cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
- ✓ Cynlluniau a gwerthusiadau athrawon yn dangos tystiolaeth o weithgareddau gwahaniaethol a'r effaith maent yn cael ar gynnydd y disgyblion.
- ✓ Meddylfryd y rhan fwyaf o'n disgyblion yn bositif wrth ddeilo gyda sefyllfaoedd anodd a gwynebu her.
- ✓ Ymyrraeth ragorol ar gael ar gyfer disgyblion ADY er mwyn cwrdd â'u hanghenion emosiynol ac ymddygiad.
- ✓ Ymyrraethau haen 3 yn digwydd yn gyson ym mhob dosbarth gyda'r athrawon yn gwella'u dealltwriaeth o'r arferion gorau â'u datblygu.
- ✓ Bydd taflenni proffil un tudalen gan 100% o blant yr ysgol.
- ✓ Dysgwyr yn llwyddo i gwrdd a'u targedau academaidd heriol yn sgil yr ymyraethau ymddygiad ac emosiynol sy'n digwydd. (Gan gynnwys plant MATh, ADY a PYaDd)
- ✓ Partneriaethau a chysylltiadau cryf gydag ysgolion y clwstwr yn parhau.
- ✓ Cynlluniau a gwerthusiadau athrawon yn dangos tystiolaeth o gynnydd da neu'n well gan ddysgwyr ADY a MATh.

School Development Plan 2021-22

Target 2 - Work with school stakeholders in embedding changes to the ALN law and MAT agenda to maximise impact on the well-being and progress of all pupils.

Rationale:

We want to transform expectations, experiences and outcomes for children and young people with additional learning needs (ALN). To do this, we aim to deliver an ALN system transformation program that will transform the different systems for special educational needs (SEN) within the school to create a unified system to support ALN learners from 0 up to 25 years of age. The ALN system transformation program also focuses on building the skills of the education workforce, to provide effective support for learners with ALN in the classroom, as well as providing easier access to specialist support, information and advice. The Welsh Government is determined to introduce a fully inclusive education system for learners in Wales. A system where needs are identified early, where there is a process in place to address those needs quickly and where all learners are supported to achieve their potential. Under the new system, planning will be flexible and responsive to specific situations, our professionals will have the required skills and be confident in identifying needs and developing strategies to help learners overcome barriers to learning and will be learner-centered to everything we do.

Objectives:

- Ensure that all learners with ALN are supported to overcome barriers to learning and achieve their full potential
- Improve the planning and delivery of support for learners aged 0 to 25 years with ALN, putting the needs, views, wishes and feelings of learners at the heart of the process.
- Focus on the importance of early identification of needs and implement timely and effective interventions that are monitored and adjusted to ensure they are achieving the desired outcomes
- The school has a clear vision of priorities for improving the wellbeing of all, especially ALN and MAT learners.
- ALN provision fully reviewed in light of new ALN legislation and school embedded procedures.
- Nearly all staff and most school stakeholders understand the new ALN procedures.
- Promote academic, social and emotional development and positive relationships
- Teachers 'plans and evaluations show evidence of differentiated activities and the impact they have on pupils' progress.
- Most of our pupils have a positive attitude when dealing with difficult situations and facing challenges.
- Excellent intervention available for ALN pupils to meet their emotional and behavioral needs.
- Tier 3 interventions occur regularly in all classes with teachers improving their understanding and development of best practice.
- 100% of school children will have one page profile sheets.
- Learners succeed in meeting their challenging academic targets due to the behavioral and emotional interventions taking place. (Including MAT, ALN and FSM children)
- Partnerships and strong links with cluster schools continue.
- Teachers' plans and evaluations show evidence of good or better progress by ALN and MAT learners.
- Establish a Welsh speaking podcast through project workshops for MAT learners.
- Receive the re-accreditation of the NACE Challenge Award.

Cynllun Datblygu Ysgol - 2019/20

Targed 3 – Ymgorffori cwricwlwm unigryw'r ysgol yn llawn yn unol â'r pedwar diben craidd a'r MDaPh.

Rhesymeg

Cenhadaeth ein cenedl yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol. Mae Cwricwlwm i Gymru 2022, sydd wedi'i wneud yng Nghymru ond sydd wedi'i lunio gan y gorau o bob cwr o'r byd, yn rhan hanfodol o gyflawni'r genhadaeth hon.
Mae'r blynyddoedd nesaf yn hollbwysig o ran cyflawni uchelgeisiau a rennir – ac a fynnir – ledled Cymru. Mae angen i ni sicrhau y gall ein plant a'n pobl ifanc fyw bywyd personol, dinesig a phroffesiynol cyflawn yn ein democratiaeth fodern.

*** Byddwn yn parhau i anelu tuag at weithgarwch disgwyliedig y GCA o ran diwygio'r cwricwlwm, ond yn amlwg mae'r sefyllfa bresennol o ran cyfyngiadau Covid-19 yn parhau yn rhwystr fawr.***

Amcanion

- ★ Parhau i godi safonau Llythrennedd, Rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad
- ★ Gweithredu amserlen sy'n rhoi rhyddid i bob aelod o staff ddarparu cwricwlwm eang a chyffrous sydd yn cael effaith da iawn ar safonau pob disgybl.
- ★ 100% o athrawon yn cynllunio yn wythnosol yn erbyn y 6 MDaPh sydd yn y Cwricwlwm newydd.
- ★ 100% o weithgareddau a phrofiadau a chynlluniwyd yn bodloni'r 4 diben craidd.
- ★ 100% o staff yn gyfarwydd gydag adnoddau y FfRhA er mwyn cyfrannu yn effeithiol at brosesau HW.
- ★ Parhau i ddatblygu diwylliant broffesiynol uchelgeisiol sy'n ymholi, arloesi ac archwilio trwy ymchwil ac ymarfer.
- ★ Datblygu arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio'n eang wrth ddiwygio'r cwricwlwm a chodi safonau.
- ★ Profiadau wedi mapio ar draws yr ysgol ar gyfer y cylch 3 mlynedd gan ddefnyddio mewnbwn gan staff, plant a rhieni yr ysgol.
- ★ Parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned er mwyn meithrin dysgwyr sy'n dinasyddion egwyddorol, gwybodus.
- ★ 100% o lywodraethwyr yn atebol o ran datblygiad y cwricwlwm a phob un gyda chyfrifoldeb i weithio o fewn un o'r timau MDaPh.
- ★ Gweithdrefnau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd sy'n cefnogi'r ysgol i ffynnu fel sefydliad dysgu.

School Development Plan 2021-22

Target 3 - To fully embed the school's unique curriculum in line with the four core purposes and the AOLE's.

Rationale

The National mission is to raise standards, reduce the attainment gap and introduce an education system that is a source of national confidence and pride. The Curriculum for Wales 2022, made in Wales but designed by the best from around the world, is an essential part of fulfilling this mission.

The next few years are critical to achieving shared ambitions - and demands - across Wales. We need to ensure that our children and young people can live a fulfilling personal, civic and professional life in our modern democracy.

** We will continue to work towards the expected EAS activity in curriculum reform, but clearly the current situation regarding Covid-19 restrictions remains a major obstacle. **

Objectives

- ★ Continue to raise standards of Literacy, Numeracy and reduce the impact of poverty on attainment
- ★ Implement a timetable that gives every member of staff the freedom to provide a broad and exciting curriculum that has a very good impact on the standards of all pupils.
- ★ 100% of teachers plan weekly lessons against the 6 AOLEs contained in the new Curriculum.
- ★ 100% of planned activities and experiences meet the 4 core purposes.
- ★ 100% of staff are familiar with ETLF resources in order to contribute effectively to SER processes.
- ★ Continue to develop an ambitious professional culture of inquiry, innovation and exploration through research and practice.
- ★ Develop inspirational leaders who collaborate widely in curriculum reform and raising standards.
- ★ Experiences mapped across the school for the 3 year cycle using input from school staff, children, parents and governors.
- ★ Continue to develop links with the community to nurture learners who are ethical, informed citizens.
- ★ All governors accountable for curriculum development and all have responsibility to work within one of the AOLE teams.
- ★ Assessment, evaluation and accountability procedures that support the school to thrive as a learning organization.

Monitoring Cycle 2021/2022

Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Amserlen Hunanwerthuso 2021-2022

Wythnos yn dechrau	Gweithgareddau	Pwy	Cysylltiadau ag AHA a CDY	Dyddiad cyflwyno
30.08.21	HMS (Gweledigaeth, chynllunio cwricwlwm i Gymru, Diogelu Plant, Iechyd a Diogelwch, Disgwyliadau Proffesiynol, Polisi Ymddygiad, targedau CDY) (UDRh).	HN/GH	MA1-5, T1-4	03.09.21
	HMS – Polisi Marcio ac Asesu	LG	MA3, T1-3	
	Cyflwyno'r CDY drafft i staff yr ysgol.	HN	MA5, MA 1-5	
	Cynnal arolwg o brosesau diogelu plant.	HN	MA2	
06.09.21				
13.09.21	Cyfarfod Staff – Rhannu arfer o fewn llyfrau'r plant a sicrhau cysondeb	UDRh	MA 1,3 T1-3	15.09.21
20.09.21	Nosweithiau rhieni - disgwyliadau a chynlluniau'r flwyddyn. Fideos / cyflwyniadau at rieni.	Athrawon	MA1-4, T1-3	25.09.21
	Cyngor Ysgol / Eco-Bwyllgor / Arweinwyr Digidol / Dreigiau'r Castell - Cyswllt â'r CDY gan greu cynllun gweithredu.	GH/CT/AJ/ ST/CRh	MA1-5, T1-3	01.10.21
	Tîm Dyniaethau yn cwrdd – Cwricwlwm Newydd	Tîm Dyniaethau	MA1-5, T3	23-24/09/21
27.09.21	Pennu targedau (mewnbynnu SIMS).	Athrawon	MA1, T1	08.10.21
	CDY yn fyw ar 'Sharepoint' a HW 2020-21	UDRh	MA1-5, T1-3	01.10.21

Crynodeb o Grantiau a Dderbyniwyd 2021/22

Dewiswch wybodaeth yr ysgol o'r cwymprestrau isod i lenwi manylion y grantiau a gafwyd

CYBYLD Disgyblion 2020: 460

Awdurdod: Caerphilly Rhif Ysgol: 6762374 CYBYLD PYDd 2020: 49

Cyfnod: Nurs_FP_KS2

Enw'r Ysgol: Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Angen mewnbwn gan yr ysgol

Dewisol - gweler dalen (PlanFinancial Sch)

	Cyfanswm y Grant ar Gael	Gwariant Cynlluniedig	Gwariant Anghynlluniedig	CA3 @ 60%	Cynnydd Hyd yn Hyn				Adolygiad o gynnydd - Lanlwythwyd i Hwb?		Olrheiniwr Gwariant		
					Gwyrdd	Oren	Coch	Balans	26-Nov	25-Mar	Gwirioneddol	Ymrwymwyd	Balans
	£	£	£		£	£	£	£			£	£	£
Refeniw yr Ysgol													
Grantiau Rhanbarthol													
EIG	181,805	181,805	-0		0	0	0	181,805	No	No	0	0	181,805
PDG	56,350	56,350	0		0	0	0	56,350	No	No	0	0	56,350
EYPDG	12,650	12,650	0		0	0	0	12,650	No	No	0	0	12,650
Recruit, Recover, Raise Standards (ALP) summer 2021	19,178	14,498	4,681		0	0	0	19,178	No	No	0	0	14,498
PL for Teachers	9,317	9,317	0		0	0	0	9,317	No	No	0	0	9,317
Recruit, Recover, Raise Standards (ALP) autumn and spring 2021-22	27,231	31,728	-4,497		0	0	0	27,231	No	No	0	0	31,728
PL Lead	3,000	3,000	0		0	0	0	3,000	No	No	0	0	3,000
Wellbeing Lead	3,000	3,000	0		0	0	0	3,000	No	No	0	0	3,000
Welsh Medium Development Primary	2,500	2,500	0		0	0	0	2,500	No	No	0	0	2,500